



Asiantaeth  
Safonau  
Bwyd

[food.gov.uk](http://food.gov.uk)

Food  
Standards  
Agency

PAPURAU PWYLLGOR  
CYNGHORI AR FWYD CYMRU

CYFARFOD AGORED

15 MEHEFIN 2017

<b>Cynnwys</b>	
<b>Cyfarfod Agored Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru</b>	
<b>1</b>	<b>Agenda</b>
<b>2</b>	<b>Strategaeth Halogion Cemegol Papur FSAW 17/06/04</b>
<b>3</b>	<b>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Papur FSAW 17/06/05</b>
<b>4</b>	<b>Datblygu ein Dull o Nodi Peryglon a Phroblemau ar draws y System Fwyd Papur FSAW 17/06/06</b>
<b>5</b>	<b>Cofnodion y cyfarfod agored diwethaf a materion sy'n codi Papur FSAW 17/06/01</b>
<b>6</b>	<b>Adroddiad gan y Cadeirydd Papur FSAW 17/06/02</b>
<b>7</b>	<b>Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Papur FSAW 17/06/03</b>

**Cyfarfod Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru**  
**15 Mehefin 2017**  
**Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW**

**Agenda**  
**Cyfarfod Agored**

Cofrestru a phaned 09.15 – 09.25

Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau 09.25 – 09.30

**Paratoi ar gyfer eitemau i'w trafod gan y Bwrdd**

Strategaeth Halogion Cemegol 09:30 – 10:00  
Papur FSAW 17/06/04

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 10:00 – 10:30  
Papur FSAW 17/06/05

Datblygu ein Dull o Nodi Peryglon a Phroblemau  
ar draws y System Fwyd 10:30 – 11:00  
Papur FSAW 17/03/06

Egwyl 11:00 – 11:15

**Materion y pwyllgor**

Y cyfarfod agored diwethaf a materion sy'n codi 11:15 – 11:30  
Papur FSAW 17/06/01

Adroddiad gan y Cadeirydd 11:30 – 11:45  
Papur FSAW 17/06/02

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr 11:45 – 12:00  
Papur FSAW 17/06/03

Adborth gan Rwydweithiau'r Pwyllgor 12:00 – 12:15

**Sesiwn Holi ac Ateb**

12:15 – 12:30

Unrhyw fater arall

12:30

Diwedd y cyfarfod agored

12:45

**Papurau i'w nodi – ar gael i'w gweld ar [www.food.gov.uk](http://www.food.gov.uk) – cliciwch ar 'Cymraeg'**

Amserlen Cyfarfodydd y Pwyllgor

Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau

Bywgraffiadau Aelodau

**FSAW 17/06/04**

**I'w drafod**

## **Egwyddorion Halogion Cemegol**

Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae'r papur atodedig, a fydd yn cael ei ystyried gan y Bwrdd ar 21 Mehefin, yn egluro dull yr Asiantaeth o reoli peryglon halogion cemegol mewn bwyd<sup>1</sup>. Mae'n amlinellu beth yw halogion cemegol a'r prif risgiau maent yn eu peri i'r defnyddiwr ac o ran masnachu bwyd. Mae'r papur hefyd yn amlinellu'r fframwaith reoli bresennol.
- 1.2 Mae'r papur hwn yn amlinellu'r egwyddorion polisi rydym ni wedi'u datblygu i reoli risg yn effeithiol ac yn nodi'r heriau y bydd y gyfundrefn yn eu hwynebu yn y dyfodol.
- 1.3 Mark Willis fydd yn cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor.
- 1.4 Gwahoddir aelodau i:
  - ystyried papur y Bwrdd
  - ystyried unrhyw gyngor y mae Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau

Swyddog Cyswllt yn yr Asiantaeth yng Nghymru: Lucy Edwards  
[lucy.edwards@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:lucy.edwards@foodstandards.gsi.gov.uk)

---

<sup>1</sup> Diffinir yma fel bwyd, diod a bwyd anifeiliaid.

**FSAW 17/06/05**

**I'w drafod**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r papur atodedig, a fydd yn cael ei ystyried gan y Bwrdd ar 21 Mehefin, yn disgrifio'r camau a gymerwyd gan Llywodraeth Cymru drwy gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r papur yn amlinellu'r heriau y mae Cymru yn eu hwynebu, nawr ac yn y dyfodol, ac yn gosod y camau y bydd angen i gyrff gyhoeddus eu cymryd, ar y cyd, i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r papur hefyd yn nodi amcanion strategol yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a'r gweithgarwch sy'n cyd-fynd â dyheadau Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu tuag atynt.
2. Nina Purcell, Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Chymru.
3. Gwahoddir aelodau i:-
  - ystyried papur y Bwrdd
  - ystyried unrhyw gyngor y mae Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau.

Swyddog Cyswllt yn yr Asiantaeth yng Nghymru: Lucy Edwards  
[lucy.edwards@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:lucy.edwards@foodstandards.gsi.gov.uk)

**FSAW 17/06/06**

**I'w drafod**

**Datblygu ein Dull o Nodi Peryglon a Phroblemau ar draws y System Fwyd**

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r papur atodedig, a fydd yn cael ei ystyried gan y Bwrdd ar 21 Mehefin, yn manylu ar y dulliau cyfredol a'r rhai sy'n dod yn amlwg ar gyfer cadw gwyliadwraeth a sganio'r gorwel, sy'n rhoi'r gallu i ni nodi peryglon penodol newydd sy'n dod i'r amlwg yn y tymor byr a chanolig. Ond nid ydynt, wrth eu hunain, yn rhoi darlun gwybodus ac integredig o'r system fwyd byd-eang nac o risgiau a phroblemau systematig dros y bump i ddeg mlynedd nesaf. Dylai datblygu gallu o'r fath fod yn amcan tymor canolig. Byddai'n datblygu ein strategaeth yn y dyfodol ac yn cyfrannu at ein huchelgais o fod yn rheoleiddiwr gwydch, sy'n atebol ac yn fodern.
2. Bydd Patrick Miller yn cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor.
3. Gwahoddir aelodau i:
  - ystyried papur y Bwrdd
  - ystyried unrhyw gyngor y mae Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau.

Swyddog Cyswllt yn yr Asiantaeth yng Nghymru: Lucy Edwards  
[lucy.edwards@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:lucy.edwards@foodstandards.gsi.gov.uk)

**Cofnodion Cymeradwy Cyfarfod Agored Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2017 yn Swyddfa'r Asiantaeth Safonau Bwyd, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd.**

**Yn bresennol:**

**Aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) a oedd yn bresennol:**

Dr R Hussey  
Mr R Alexander  
Mr D Morgan  
Dr H Jones  
Mr D Peace

**Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:**

Richard Bowen – Cyfarwyddwr (Dros Dro) yr Asiantaeth yng Nghymru  
Helen George – Ysgrifenyddiaeth  
Lucy Edwards – Ysgrifenyddiaeth  
Nina Purcell drwy dele-gynhadledd ar gyfer eitem 1  
Jason Feeney a Richard Collier drwy fideo-gynhadledd ar gyfer eitem 2  
Steve Wearne, Stuart Armstrong, Chun Han Chan a Paul Tossell drwy fideo gynhadledd ar gyfer eitem 3

## **1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod agored y Pwyllgor, a rhoi gwybod i'r rheiny a oedd yn bresennol am y siaradwyr gwadd a fyddai'n cyflwyno papurau. Nodwyd ymddiheuriadau gan Mrs S Jones.

## **2. Datganiadau o fuddiannau**

2.1 Fe nododd aelodau'r Pwyllgor y datganiadau canlynol o fuddiannau:

- Dywedodd David Peace ei fod yn gadeirydd anweithredol grŵp Hall Mark, ac yn gynghorydd busnes i fusnes bwyd fferm yn Sir Fynwy.
- Cynghorodd Norma Barry ei bod yn aelod o'r Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod a hefyd yn Llysgennad Gwin i Gymru fel rhan o'r rôl hon.
- Cynghorodd Ruth Hussey mai hi yw Cadeirydd yr Adolygiad Seneddol o lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

2.2. Nodwyd pob datganiad. Ni wnaeth unrhyw aelod dynnu'n ôl rhag trafodaethau.



### **3. Cofnodion y cyfarfod agored diwethaf (Papur FSAW 17/03/01)**

3.1 Derbyniwyd cofnodion drafft y cyfarfod agored a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd fel cofnod cywir o'r trafodaethau. Cytunwyd y dylid cyfieithu'r cofnodion terfynol a'u rhoi ar y wefan. **Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

### **4. Adroddiad gan y Cadeirydd (Papur FSAW 17/03/02)**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig ar y materion a godwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2016. Wrth gynnig sylwadau ar yr adroddiad, rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r Pwyllgor ar yr ymweliadau a'r cyfarfodydd y mae wedi mynychu ers y Pwyllgor diwethaf. Mewn diweddariad llafar pellach, soniodd y Cadeirydd fwy am Gwrdd i Ffwrdd y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Ionawr a'r blaenoriaethau strategol a bennwyd ar gyfer yr Asiantaeth dros y tair blynedd nesaf yn y cyfarfod hwnnw ac sydd bellach yn derfynol.

### **5. Diweddariad gan y Cyfarwyddwr (Papur FSAW 17/03/03)**

5.1 Cyflwynwyd adroddiad rheolaidd Cyfarwyddwr Cymru gan Richard Bowen y tro hwn, sef Cyfarwyddwr Dros Dro Cymru. Hysbysodd y Pwyllgor am nifer o faterion, gan gynnwys gosod adroddiad ger bron Cynulliad Cymru ar 28 Chwefror ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a'r adolygiad blynyddol o'r system apelio ar gyfer y cyfnod 28 Tachwedd 2015 tan 27 Tachwedd 2016. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am drafodaethau a gynhaliwyd â swyddogion Llywodraeth Cymru am ddiwygio canllawiau ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r awdurdodau lleol wrthi'n ystyried fersiwn ddrafft ddiwygiedig o'r canllawiau.

### **6. Rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol – y diweddaraf (Papur FSAW 17/03/04)**

6.1 Trafododd aelodau'r Pwyllgor y papur, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ar weithgarwch ar draws y rhaglen ers mis Medi 2016. Hefyd, cafwyd trosolwg o'r cynllun lefel uchel ar gyfer 2017-19 ynghyd â chrynodeb o'r risgiau strategol.

Wrth drafod y Cynllun Cyflawni ar gyfer y Model Gweithredu Targed, nododd y Pwyllgor fod y model yn un lefel uchel a'i fod yn adnodd rheoli 'byw' i'w adolygu a'i fireinio dros amser. Nododd y Pwyllgor fod nifer o newidiadau llywodraethu wedi'u gweithredu yn ddiweddar, ac y byddai gwaith y rhaglen bellach yn cael ei oruchwylio gan Dîm Rheoli Gweithredol yr ASB. O ran y mater hwn, nodwyd y byddai cynllun cyflawni mwy manwl, sydd â chanlyniadau penodol ac amserlenni pendant, yn cael ei baratoi ar gyfer y Tîm Rheoli Gweithredol a'i fonitro'n rheolaidd. Holodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau mewn perthynas â'r risgiau sydd ynghlwm â'r rhaglen. Wrth nodi rhan o gofrestr risg Rheoleiddio Ein Dyfodol, cytunwyd y gallai fod yn fuddiol i'r Pwyllgor weld y gofrestr risg fanylach a fyddai'n gosod y risgiau yn eu cyd-destun, ac

yn rhoi manylion y sgoriau risg a bennwyd i bob risg. **Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

6.2 Wrth ystyried agweddau sicrwydd y papur, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- byddai'n croesawu rhagor o fanylion ar y cynnig am Archwiliwr Rheoleiddio Ardystiedig ac, yn arbennig, ar safonau cymhwysedd ar gyfer yr Archwiliwr. Yn y cyd-destun hwn, nododd y Pwyllgor mai'r llif gwaith sicrwydd a fyddai'n ymchwilio i'r cysyniad hwn ymhellach;
- roedd pryderon ynghylch dibynnu ar gynlluniau sicrwydd trydydd parti, yn arbennig cynlluniau sicrwydd a delir amdanynt gan fusnesau unigol.

6.3 Holodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau mewn perthynas â'r posibilrwydd o gyflwyno'r egwyddor 'trwydded i fasnachu'. Cafodd y mater hwn ei godi hefyd mewn cwestiwn i'r Pwyllgor gan randdeiliad cyn y cyfarfod. Trafododd y Pwyllgor fanteision y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru a'i lwyddiant o ran codi safonau hylendid bwyd mewn busnesau bwyd yng Nghymru. Roedd hwn hefyd yn fater a godwyd mewn cwestiwn gan randdeiliad. Mae'r cwestiynau a ddaeth i law, ynghyd â'r atebion a roddwyd yn y cyfarfod, ar gael yn Atodiad 1. Yn ystod y sesiwn holi ac ateb cyffredinol, cafwyd hefyd nifer o gwestiynau penodol am raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol gan randdeiliaid a oedd yn bresennol. Mae'r ymatebion ffurfiol i'r cwestiynau hyn wedi'u darparu a'u hatodi yn Atodiad 2. Roedd pryderon am wrthdaro buddiannau o ran defnyddio arolygwyr sicrwydd a delir amdanynt, dibynnu gormod ar ddata a gesglir gan y sector preifat, a phryder y byddai cefnogaeth i fusnesau yn cael ei cholli pe bai newid i fodel rheoleiddio preifat, gan fod archwilio ac arolygu yn wahanol sgiliau. Cafwyd sylw pellach mewn perthynas â diwygio'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ychydig flynyddoedd yn ôl i symleiddio'r broses gofrestru, tra bod rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol bellach yn symud i gyfeiriad lle byddai lefel uwch o gofrestru. **Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

## **7. Prosiect Stow – Cyfnod 2: Model Ariannu Cynaliadwy (Papur FSAW 17/03/05)**

7.1 Trafododd y Pwyllgor y papur a oedd yn manylu ar y cynnydd hyd yma gan y Grŵp Llywio ar Godi Tâl am Reolaethau Cig, gweithredu Cyfnod Stow 1 a threfniadau disgowntio a chodi tâl o 28 Mawrth 2016. Wrth nodi'r cynnydd cadarnhaol a wnaed hyd yma o ran hybu gwell cyd-weithio rhwng y diwydiant a'r ASB drwy wella effeithlonrwydd rheolaethau swyddogol, roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod nifer o ffactorau yn tarfu ar y gallu i wneud rhagor o gynnydd erbyn hyn. Yn ei ystyriaethau, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- cafwyd sicrwydd na fyddai'n anodd ail-gydio yn y gwaith a'r grŵp llywio hwn pe bai penderfyniad i ohirio'r gwaith ar ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer y dyfodol;
- roedd y Pwyllgor wedi siomi nad oedd yn bosibl trefnu cynrychiolaeth gan undeb ffermio yng Nghymru ar gyfer cyfnod 2 y grŵp llywio;
- ps yw'r grŵp yn ail-ddechrau, dylid adolygu ei faint a'i aelodaeth, ac mewn perthynas â hyn, roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai grŵp llywio llai o faint, gyda chefnogaeth gan grŵp ymgynghori mwy, fod yn fwy buddiol;
- byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi deall mwy am gyfanswm y gost o gyflawni rheolaethau swyddogol, ac yn hynny o beth, byddai'n croesawu tabl sy'n nodi costau i'r ASB (gan gynnwys beth ellir ei adennill) a chostau i'r diwydiant dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf. **Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

7.2 I gloi, roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig i ohirio'r gwaith datblygu ar gyfer model ariannu cynaliadwy hyd nes y ceir cynnydd pellach mewn perthynas â dyfodol rheolaethau swyddogol. Ymhellach, roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai'r ASB barhau i ddatblygu diffiniad ar gyfer 'safle bach/micro', er mwyn dod o hyd i ateb penodol ar gyfer safleoedd o'r fath o dan unrhyw fodel ariannu cynaliadwy yn y dyfodol.

## 8. Rhaglen Alergeddau ac Anoddefiadau (Papur FSAW 17/03/06)

8.1 Trafododd y Pwyllgor y papur a oedd yn manylu ar ganfyddiadau diweddar gwaith ymchwil byd-eang o'r radd flaenaf a'r effaith y gallai'r canfyddiadau hyn eu cael, gyda'r bwriad o newid pwyslais y rhaglen ymchwil o alergedd bwyd mewn plant i alergedd bwyd mewn oedolion.

Yn ei ystyriaethau, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- arwyddocâd alergedd neu anoddefiad bwyd mewn perthynas â nifer sylweddol uchel o unigolion yn mynd i'r ysbty o'i herwydd;
- mae'n bwysig i'r ASB gynnal gwaith ymchwil er mwyn creu sail ar gyfer ffocws a blaenoriaethau unrhyw ymyriadau polisi a chyingor yn y dyfodol;
- wrth gydnabod bod grwpiau sy'n agored i niwed yn cynnwys defnyddwyr sydd yn eu harddegau a'u hugeiniau, gellid edrych ar ddefnyddio technoleg fodern a dibynadwy;
- mae safonau labelu cyson a gyflwynwyd yn y Deyrnas Unedig, ac ar draws Ewrop, o dan ddeddfwriaeth Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd, wedi profi i fod yn fesur diogelu defnyddiol o ran darparu gwybodaeth am alergenau i ddefnyddwyr;

- gellid targedu unrhyw waith yn y dyfodol at wella dealltwriaeth o wahanol faterion croeshalogi, gan gynnwys croeshalogi mewn safleoedd bwyd, ffactorau amgylcheddol a gwaith pellach gydag awdurdodau lleol er mwyn helpu'r rheiny sydd yn gweithio yn y maes gorfodi. Gellid hefyd cynnal y gwaith hwn ar y cyd â chyrff eraill.

8.2 Cafwyd adborth defnyddiol gan aelod o'r Pwyllgor mewn perthynas â phanel defnyddwyr yr ASB a fynychodd yn ddiweddar yng Nghymru. Nododd fod defnyddwyr wedi datgan bod labelu bwyd yn gymhleth, yn anodd ei ddeall a bod cyfathrebu clir a chyson yn hanfodol gan fod cymaint o fwyd wedi'i fewnforio bellach ar gael.

8.3 Yn ddibynnol ar yr ystyriaethau uchod, roedd y Pwyllgor yn cefnogi argymhelliad y papur i newid ffocws y rhaglen ymchwil i alergedd bwyd mewn oedolion.

## **11. Adborth gan Rwydweithiau'r Pwyllgor**

11.1 Dywedodd nifer o aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi gweld paneli defnyddwyr dros y rhai misoedd diwethaf, ac mai'r prif themâu oedd labelu bwyd, diffyg dealltwriaeth o amgylch diogelwch bwyd a'r rôl y mae'r ASB yn ei chwarae wrth sicrhau hyn. Nodwyd hefyd bod canfyddiad ei bod yn anodd newid barn defnyddwyr unwaith iddynt gael eu dylanwadu gan stori codi ofn (e.e. peryglon melysyddion artiffisial), hyd yn oed â gwyddoniaeth a thystiolaeth.

## **12. Sesiwn Holi ac Ateb**

12.1 Caiff yr holl faterion a godwyd fel rhan o'r sesiwn eu hadlewyrchu yn y sylwadau uchod.

## **13. Unrhyw fater arall**

13.1 Nododd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod agored nesaf yn cael ei gynnal ar 15 Mehefin 2017.

## Camau Gweithredu

Rhan	Camau gweithredu	Erbyn	Statws
Para 3.1	Cyfieithu cofnodion y cyfarfod ym mis Tachwedd a'u rhoi ar y wefan.	31 Mawrth 2017	
Para 6.1	Rhannu'r Gofrestr Risg lawn â'r Pwyllgor.	30 Ebrill 2017	
Para 6.2	Rhannu adroddiadau ar gynlluniau peilot Rheoleiddio Ein Dyfodol gyda Tesco a Mitchell & Butler â'r Pwyllgor.	17 Mawrth 2017	Wedi'i gwblhau
Para 7.1	Tabl yn manylu ar gostau'r ASB a faint sy'n cael ei adennill bob blwyddyn o godi tâl ar reolaethau cig.	31 Mai 2017	

## Atodiad 1

### **Cwestiynau am raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol gan Benaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru:**

**Cwestiwn 1:** Mae Swyddogion Cymru wedi gofyn i'r Asiantaeth ystyried, a rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am, y posibilrwydd o gyflwyno gwell system gofrestru neu drwyddedu a fyddai'n gofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw yn hytrach na hawl i gofrestru ar gyfer pob busnes bwyd. Wrth gyfeirio at hyn, a yw paragraffau 4.21 a 4.22 y papur sy'n rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol yn cyfeirio at Loegr yn unig? Beth yw safbwynt Cymru ar hyn o bryd mewn perthynas â thrwyddedu busnesau bwyd?

**Ateb 1:** Rydym wedi ymrwmo i'r egwyddor o 'drwydded i fasnachu'. Rydym wedi trafod sut y gellid cyflwyno hyn â chyfreithwyr Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn trafod y mater gyda'n gwyddonwyr cymdeithasol ac economegwyr er mwyn pennu fframwaith addas. Mae'r holl waith datblygu polisi, yn enwedig datblygiadau y bwriedir eu gwneud mewn deddfwriaeth, yn gofyn am sail dystiolaeth gynhwysfawr er mwyn creu cynigion, felly mae'r dull 'trwydded i fasnachu' a geir ym mharagraffau 4.21 a 4.22 yn gymwys i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym wedi ymrwmo i adeiladu ar y sail dystiolaeth hon er mwyn sicrhau bod y polisi rydym yn ei ddatblygu yn addas at ei ddiben, a bydd yn ddigon cadarn i wrthsefyll heriau'r broses ddeddfwriaethol ar draws pob un o'r gwledydd. Byddwn yn gofyn i awdurdodau lleol ein helpu i adeiladu'r sail dystiolaeth yng Nghymru.

**Cwestiwn 2:** Mewn perthynas â Chyd-Ddatganiad Safbwynt Gweinidogaethol Llywodraeth Cymru ar raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol, yn arbennig ynghylch arolygiadau annibynnol awdurdodau lleol a'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd statudol yng Nghymru, i ba raddau y mae rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol yn adlewyrchu'r posibilrwydd o sefydlu gwahanol ddulliau yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â'r materion hyn?

**Ateb 2:** Ym mharagraff 7.1, rydym wedi egluro'n glir bod y gwaith datblygu ar gyfer model gweithredu newydd yn cymryd i ystyriaeth yr angen am hyblygrwydd mewn unrhyw drefniadau newydd er mwyn galluogi i'r model fodloni anghenion gwledydd unigol, ac ar yr un pryd mae'n rhaid cyflawni rhaglen gyffredinol sy'n bodloni'r egwyddorion sydd tu ôl i'r rhaglen. Drwy'r dull agored o greu polisi rydym wedi ei fabwysiadu, rydym wedi ymrwmo i ymgysylltu â'n prif rhanddeiliaid ar draws pob un o'r gwledydd a gwrando ar eu safbwyntiau, gan roi'r cyfle iddynt lywio datblygiad y model. Byddwn yn parhau i weithio fel hyn.

## Atodiad 2

### Sylwadau a chwestiynau rhanddeiliaid am y rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol:

**Sylwadau:** Pryderon bod gwrthdaro buddiannau drwy ddefnyddio arolygwyr sicrwydd a delir, ac y bydd gorddibyniaeth ar ddata a gesglir gan y sector cyhoeddus. Pe symudir at reoleiddio preifat, mae perygl o golli cefnogaeth i fusnesau. Mae archwilio ac arolygu yn wahanol sgiliau.

**Cwestiwn 1:** A gafodd canlyniadau cynlluniau peilot y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd gyda Tesco a Mitchell & Butler eu rhannu â Phwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru?

**Ateb 1:** Mae adroddiadau'r cynlluniau peilot hyn wedi'u cwblhau'n ddiweddar, ac fe'u cyhoeddwyd ar 9 Mawrth drwy

<https://www.food.gov.uk/wales/cymru/newyddiondatgan/newyddion/2017/16047/rheoleiddio-ein-dyfodol-archwilio>

**Cwestiwn 2:** Pe symudir at gynlluniau sicrwydd rheoleiddio preifat, beth yw'r gwerth i ddefnyddwyr yng Nghymru o'i gymharu â'r system gyfredol?

**Ateb 2:** Mae'r system gyfredol yn dibynnu'n llwyr ar ymyriadau a gyflawnir gan awdurdodau lleol i bennu i ba raddau y mae busnesau'n cydymffurfio â chyfraith bwyd, ac nid yw'n defnyddio data sicrwydd a gesglir gan y diwydiant. Mae ymyriadau awdurdodau lleol yn digwydd ar gyfnodau achlysurol iawn, a thrwy defnyddio data sicrwydd a gesglir gan y diwydiant yn barhaus, bydd yn bosibl sefydlu asesiad manylach o gydymffurfiaeth, a fydd yn rhoi gwell gwerth i'r defnyddiwr. Y cynnig yw ystyried Sicrwydd Preifat wedi'i Reoleiddio, ac nid "symud at sicrwydd rheoleiddio preifat". Bydd gan reolaethau swyddogol bresenoldeb o hyd, ond bydd eu ffocws, eu hamlder a'u math yn amrywio yn ôl y lefel o sicrwydd y gellir ei gymryd o ffrwd sicrwydd preifat busnesau bwyd. Bydd cydnabyddiaeth Sicrwydd Preifat wedi'i Reoleiddio ar gyfer busnesau sy'n ceisio cydymffurfio yn caniatáu i Awdurdodau Lleol ganolbwyntio'n fwy ar y busnesau hynny nad ydynt yn cydymffurfio'n barhaus ac sy'n peri'r risg fwyaf i ddefnyddwyr.

**Sylwadau:** Newidiodd y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn Lloegr rai blynyddoedd yn ôl er mwyn symleiddio'r broses gofrestru, a nawr mae Rheoleiddio Ein Dyfodol yn symud tuag at gofrestru pellach, sy'n gyfosodiad diddorol. Mae cofrestru yn sylfaen y mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn seiliedig arno, ac mae nifer o risgiau, er enghraifft ail-gofrestru er mwyn osgoi arddangos a chosbau. Pryder bod rhoi dewis o reoleiddwyr yn rhoi neges ddryslyd i fusnesau a defnyddwyr.

**Cwestiwn 3:** A fydd yr arolygwyr sicrwydd a delir yn rhoi sgoriau o dan Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd?

**Ateb 3:** Rhagwelir y gallai'r dystiolaeth ar gydymffurfiaeth busnesau a fydd yn cael ei chasglu gan Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig chwarae rhan wrth lywio sgoriau hylendid bwyd. Fodd bynnag, nid yw'r manylion o ran sut gallai hyn weithio'n

ymarferol, dan y Safon Brand yn Lloegr ac o fewn fframweithiau deddfwriaethol cyfredol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, wedi'u datblygu eto.

**Cwestiwn 4:** A fydd mwy o waith craffu yn digwydd i gynlluniau achredu trydydd parti?

**Ateb 4:** Bydd – er mwyn i unrhyw sicrwydd diwydiant gael ei ystyried o fewn y model cyflawni newydd, bydd yn cael ei reoleiddio, ac yn dangos ei fod wedi bodloni'r safonau sicrwydd a fydd wedi'u gosod gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

**Cwestiwn 5:** A fydd cofrestr o archwilwyr, eu swyddogaeth a'u defnydd?

**Ateb 5:** Bydd – er mwyn rhoi'r cysyniad o Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig ar waith, bydd datblygu trefniadau ar gyfer ardystio unigolion i safon achrededig a osodir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn hanfodol. Rhagwelir y bydd gwahanol lefelau o gymhwysu o fewn y safon mewn perthynas â natur a chymhlethdod busnesau bwyd a fydd yn cael eu harchwilio, a bydd yr amgylchiadau y gellir defnyddio unigolyn sydd wedi'i achrededu i lefel benodol wedi'u nodi.



**FSAW 17/06/02**

**I'w drafod**

**Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru ar Faterion a Godwyd yng Nghyfarfod Agored Diwethaf y Bwrdd**

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r adroddiad atodedig yn darparu crynodeb byr o'r materion a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Bwrdd yng nghyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017, a phrif faterion y trafodaethau mewn perthynas â chylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru. Mae cofnodion llawn y cyfarfod hwnnw ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy <http://www.food.gov.uk> (Saesneg yn unig)

2. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:

- **nodi** trafodaethau'r Bwrdd
- **gwahodd** y Cadeirydd i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach.

Swyddog Cyswllt yn yr Asiantaeth yng Nghymru: Lucy Edwards  
[Lucy.Edwards@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:Lucy.Edwards@foodstandards.gsi.gov.uk)

**FSAW 17/06/02**

**I'w drafod**

**Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru – Mehefin 2017**

## **1. Adroddiad Cadeirydd y Bwrdd**

- 1.1 Darparodd Gadeirydd y Bwrdd ddiweddariad ar y gwaith ymgysylltu diweddar, gan gynnwys cwrdd i ffwrdd y Bwrdd ym mis Ionawr lle trafodwyd cynllun pum mlynedd yr ASB. Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi cwrdd â'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, ac wedi trafod safbwyntiau rhanddeiliaid Cymru ar ddiwygio rheoleiddio. Bu i'r Cadeirydd hefyd gwrdd â George Eustice AS, Gweinidog yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a'r Arglwydd Gardiner, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Defra. Trafododd y Cadeirydd gynnydd yr Uned Troseddau Bwyd Cenedlaethol; lles anifeiliaid a defnyddio camerâu cylch cyfyng mewn lladd-dai; a chyfraniad yr ASB wrth ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Nododd y Cadeirydd iddi hefyd: siarad yn agoriad trafodaethau diweddar Codex ar ymwrthedd gwrthficrobaidd, a rhoddodd ddiolch i Steve Wearne, Cyfarwyddwr Polisi yr ASB, am ei waith arbennig yn cyd-gadeirio; mynychu swper Moy Park; ymweld â melin fwyd anifeiliaid yng Ngogledd Allerton; cyfarfod â thîm lechyd yr Amgylchedd Cyngor Dinas Leeds; cyfarfod â'r Gymdeithas Masnach Gig Ryngwladol; a chyfarfod â Phrif Gyfarwyddwr Waitrose.

## **2. Crynodeb o'r prif eitemau a drafodwyd**

2.1 Yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2017, aeth y Bwrdd ati i ystyried y papurau canlynol:

- **Rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol**  
Rhoddodd y papur ddiweddariad cynhwysfawr ar y gwaith ymgysylltu a gyflawnwyd gan dîm Rheoleiddio Ein Dyfodol ers mis Medi 2016.
- **Prosiect Stow Cyfnod 2 – Model Ariannu Cynaliadwy**  
Amlygodd y papur y cynnydd a wnaed gan y grŵp annibynnol ar fodel ariannu cynaliadwy; ac roedd yn gofyn i'r Bwrdd benderfynu p'un a ddylai gwaith barhau ar ddiffinio gweithrediadau bach/micro gan ddisgwyl y byddai ei angen ar gyfer gwaith ar y model yn y dyfodol.
- **Rhaglen Alergeddau ac Anoddefiadau Bwyd**

Manylodd y papur ar ganlyniadau diweddar o ymchwil byd-eang, ac roedd yn gofyn i'r bwrdd gytuno i symud pwyslais y rhaglen ymchwil o alergedd bwyd mewn babanod a phlant i oedolion.

- **Diweddariad ar Iechyd Deietegol**

Rhoddodd y papur ddiweddariad ar raglen waith y tîm iechyd deietegol yng Ngogledd Iwerddon, gan ddisgrifio rôl barhaus yr ASB yn y maes polisi hwn a phwysigrwydd gweithio ar y cyd ar draws y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

- **Adroddiad ar Lafar gan Gadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Sicrwydd Risg**

Rhoddodd Gadeirydd y Pwyllgor grynodedb o bedwar maes trafod y Pwyllgor yn ei gyfarfod y diwrnod cynt, sef: cyfrifon diwedd blwyddyn; y rhaglen archwilio mewnol; risg; a'r adroddiad blynyddol ar ddiogelwch gwybodaeth.

2.2 Mae cofnodion drafft cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2017, sy'n rhoi mwy o gyd-destun, yn ogystal â chasgliadau'r Bwrdd ar y papurau uchod ar gael drwy: <https://www.food.gov.uk/about-us/our-board/meetings> (Saesneg yn unig)

## **Materion eraill**

3.1 Ers mis Mawrth rwyf wedi cymryd rhan yn y broses recriwtio i benodi dau aelod newydd i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru. Cynhelir y cyfweiliadau ar 15 ac 16 Mehefin. Disgwylir, yn destun cymeradwyaeth Weinidogol, y bydd dau aelod newydd ar y Pwyllgor o fis Gorffennaf. Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i Derek Morgan a Sue Jones y bydd eu penodiadau'n dod i ben ar 30 Mehefin. Mae'r ddau wedi bod ar y pwyllgor ers 2008, a byddwn yn gweld eisiau eu harbenigedd a'u mewnbwn. Rwy'n dymuno'n dda iddynt yn y dyfodol.

3.2 O achos y cyfnod cyn etholiad, mae gweithgarwch swyddogol arall yr ASB wedi'i gyfyngu.

Dr Ruth Hussey CB, OBE

Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Mehefin 2017

## PAPUR FSAW 17/06/03

### I'w drafod

### Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Dros Dro

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r papur atodedig yn nodi'r materion a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017. Mae cofnodion llawn y cyfarfod hwnnw ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy <http://www.food.gov.uk> (Saesneg yn unig). Mae'r papur hwn hefyd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n berthnasol i Gymru ac yn sail i'r diweddariad i Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru.

2. Bydd Cyfarwyddwr Dros Dro yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru yn ategu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn gyda diweddariad ar lafar, lle bo'n briodol.

3. Gwahoddir aelodau i:

- **nodi** trafodaethau'r Bwrdd
- **gwahodd** y Cyfarwyddwr Dros Dro i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach

Swyddog Cyswllt yn yr Asiantaeth yng Nghymru: Lucy Edwards

[Lucy.Edwards@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:Lucy.Edwards@foodstandards.gsi.gov.uk)

## PAPUR FSA 17/06/03

I'w drafod

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr

### 1. Crynodeb o Adroddiad y Prif Weithredwr i Gyfarfod Agored y Bwrdd ar 15 Mawrth 2017.

1.1 Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr (FSA 17/03/03) sydd ar gael drwy <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/fsa170303.pdf> (Saesneg yn unig).

### 2. Adroddiad y Cyfarwyddwr Dros Dro yng Nghymru ar Faterion yn ymwneud â Chymru

#### Ymgysylltu'n allanol

2.1 Rwyf wedi cymryd rhan yn y cyfleoedd ymgysylltu canlynol ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn ar 9 Mawrth 2017:

- 15 Mawrth – ymweld ag Ysgol Gynradd Langstone, Casnewydd i weld perfformiad o'r gweithdy *Digwyddiadau Dychrynlyd ar Long Ofod Gastromo*.
- 21 Mawrth – cyfarfod â phennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir ar gyfer Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd a Bro Morgannwg
- 23-24 Mawrth – mynychu Gwobrau Blas Cymru
- 28 Mawrth – cyfarfod â Chadeirydd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru
- 30 Mawrth – cyfarfod â Phennaeth Gwasanaethau Ffordd o Fyw, Cyngor Sir Ceredigion
- 31 Mawrth – ymweld â safle gyda thîm diogelwch bwyd Bro Morgannwg
- 5 Mai – mynychu cyfarfod Grŵp Polisi Bwyd Llywodraeth Cymru
- 17 Mai – mynychu cyfarfod Cyfarwyddwyr Swyddfeydd y Llywodraeth yng Nghymru
- 19 Mai – mynychu cyfarfod Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru
- 23 Mai – mynychu dathliad Ffermio a Bwyd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- 24 Mai – mynychu cyfarfod gweithgor Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau Cymru
- 6 Mehefin – cyfarfod â chyfarwyddiaeth Polisi Iechyd Llywodraeth Cymru

2.2. Yn ogystal, bachais ar y cyfle i fynychu standin yr ASB yng Nghymru yn Eisteddfod yr Urdd.

### Rheoleiddio Ein Dyfodol

2.3 Gwnaed cynrychiolaethau i Rebecca Evans AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cyfeiriad y rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol yr ASB.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru wedi mynegi pryderon mewn perthynas â'r broses ymgysylltu a phryderon ynghylch y goblygiadau posibl maent yn eu rhagweld i'r system reoleiddio gydlynol a chadarn sy'n bodoli yng Nghymru. O ganlyniad i'r pryderon hyn, a gan gadw datganiad safbwynt Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016 ar gynigion Rheoleiddio Ein Dyfodol mewn cof, mae'r Gweinidog wedi comisiynu gweithgor newydd i ystyried gwaith ymgysylltu ehangach â'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol, yn benodol mewn perthynas â thirlun Llywodraeth Leol Cymru a diweddariadau ac ymgynghoriadau awdurdodau lleol. Mae cylch gorchwyl ac aelodaeth y grŵp yn cael eu llunio gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Bydd y gweithgor yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru. Bydd yr ASB yn rhan annatod o'r grŵp, sy'n debygol o gwrdd yn fuan wedi'r etholiad cyffredinol. Mae'r dyddiadau newydd (o ganlyniad i'r cyfnod cyn etholiad) ar gyfer cyfnod nesaf digwyddiadau ymgysylltu ag awdurdodau lleol Rheoleiddio Ein Dyfodol wedi'u cadarnhau. Mae'r digwyddiadau yn rhai ymgynghorol, a'u bwriad yw helpu i lywio dyluniad Model Gweithredu Targed Rheoleiddio Ein Dyfodol. Bydd y digwyddiad nesaf i awdurdodau lleol a gynhelir yng Nghymru ar 11 Gorffennaf, yng Ngwesty'r Metropolitan, Llandrindod, Powys.

### Diwygio Llywodraeth Leol yng Nghymru

2.4 Mae Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yng Nghymru, yn cadarnhau y bydd, o ganlyniad i'r ymgynghoriad Papur Gwyn a'r ymatebion, yn gosod y camau nesaf o ddiwygio llywodraeth leol yn fuan.

<http://gov.wales/newsroom/localgovernment/2017/170511-local-government-reform/?skip=1&lang=cy>

### Cymeradwyaeth gan Aelodau Cynulliad Cymru ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

2.5 Pasiwyd Bil Iechyd y Cyhoedd newydd ac eang gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Mai. Pleidleisiodd aelodau Cynulliad Cymru yn unfryd i gyflwyno haen o fesurau newydd i wella iechyd a lles pobl Cymru, gan gynnwys ehangu ardaloedd di-fwg a gorfodi tatŵyddion a thyllwyr cosmetig i gytuno i gynllun trwyddedu. Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar y Gweinidogion i fynd i'r afael â gordewdra drwy

gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar ei atal a'i leihau. O ddiddordeb penodol i'r ASB, mae'r Bil yn galluogi 'awdurdod bwyd' dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 i gadw derbynebaw cosbau penodedig o ganlyniad i droseddau dan y Ddeddf honno, at ddiben gorfodi'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Ar hyn o bryd, nid oes gan awdurdodau lleol ganiatâd i gadw'r derbynebaw hyn. Bydd hyn yn cynorthwyo awdurdodau lleol i adfer y costau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio a helpu i gadw llwyddiant parhaus y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru.

<http://www.theargus.co.uk/news/national/15289664.WelshAssemblyvotesthroughradicalhealthandwellbeingbill/>

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16155>

### Gorfodi

2.6 Mae manylion erlyniadau safonau, hylendid a diogelwch bwyd llwyddiannus diweddar yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gael drwy:

<https://www.food.gov.uk/wales/cymru/newyddiondatgan/newyddion/2015/14652/food-standards-agency-publishes-food-law-prosecutions-database>

## **3. Bwrw Golwg Ymlaen**

3.1 Rhwng nawr a chyfarfod agored nesaf Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ar 14 Medi, rwyf wedi ymrwymo i'r pethau hyn sy'n berthnasol i'r ASB yng Nghymru:

- 11 Gorffennaf – cyfarfod â rhanddeiliaid awdurdodau lleol i drafod y rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol
- 25 Gorffennaf – mynychu Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru
- 29 Gorffennaf – mynychu Gŵyl Caws Mawr Caerffili
- 9 Awst – mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol
- 16 Awst – mynychu Sioe Amaethyddol Sir Benfro

Richard Bowen

Cyfarwyddwr Dros Dro, ASB Cymru

Mehefin 2017